**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

25 Mehefin 2020

Annwyl Lywydd,

**Y Bil Masnach: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

Rydym wedi bod yn monitro'n fanwl y datblygiadau o ran y Bil Masnach yn Senedd y DU ynghyd â'r materion cysylltiedig o gydsyniad deddfwriaethol. Erbyn hyn, disgwylir i gyfnodau diwygio'r Bil gael eu cynnal yn ystod tymor yr hydref, ac felly rydym yn ysgrifennu atoch gyda chais i ymestyn ymhellach ein dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau.

Rydym yn cydnabod bod estyniad wedi'i roi eisoes ar gyfer 2 Gorffennaf, a byddem yn ddiolchgar pe bai modd ymestyn y dyddiad cau tan dymor yr hydref er mwyn i'n pwyllgorau allu cymryd yr amserlen seneddol ddiwygiedig i ystyriaeth.

Yn fwy cyffredinol, hoffem ofyn i'r Pwyllgor Busnes ystyried gofyn i'r Trefnydd ddarparu diweddariadau mwy rheolaidd ar hynt Biliau'r DU sy'n destun memoranda cydsyniad deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, i sicrhau bod y dyddiadau cau a bennir gan y Pwyllgor Busnes i bwyllgorau'r Senedd gyflwyno adroddiadau yn parhau i fod yn addas a bod modd eu hymestyn yn rheolaidd yn ôl yr angen.

Rydym yn ddigon bodlon trafod hyn yn fanylach neu ateb unrhyw gwestiynau a allai fod gennych.

Yn gywir,

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Mick Antoniw AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Cysylltu@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565